**Ymateb Estyn i'r cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd newydd trwy uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon, Caerffili.**

## Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

## Crynodeb / Casgliad

Mae'r cynigion yn debygol o leiaf gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

## Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi rhoi rhesymeg glir ar gyfer y cynnig, sy'n cynnwys disgrifiad manwl o'r prosiect, ac amserlen arfaethedig ar gyfer ei gwblhau. Y cynnig yw y bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r contractwr i sicrhau y byddai cyn lleied o darfu â phosibl ar weithrediadau dyddiol y garfan ysgol bresennol, ar safle Ysgol Fabanod Llanfabon. Nid oes unrhyw drefniadau dros dro wedi eu cynnig ar gyfer Ysgol Iau Llancaeach gan na fydd y prosiect yn cael unrhyw effaith ar y ddarpariaeth bresennol.

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi amlinellu'n glir ac yn deg y manteision a'r anfanteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r ddwy ysgol dan sylw yn gweithio gyda'i gilydd yn agos ar hyn o bryd. Mae'r cynigiwr wedi nodi risgiau addas yn gysylltiedig â'r cynnig, er enghraifft yr effaith ar ysgolion eraill cyfagos, ac wedi nodi ffyrdd posibl i reoli'r risg, er enghraifft trwy gyflwyno nifer derbyn o 40.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried defnyddio safle Ysgol Iau Llancaeach, yn lle safle Ysgol Fabanod Llanfabon, ond wedi diystyru'r dewis arall hwn oherwydd y mynediad cyfyngedig tebygol i gerbydau, a'r cyfleoedd gwerth chweil amlwg ar gyfer darpariaeth ysgol estynedig (defnydd cymunedol a gofal plant cofleidiol) ar y mwyaf o'r ddau safle. Mae'n ymddangos bod safle Ysgol Fabanod Llanfabon yn ateb synhwyrol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr ac ar hygyrchedd y ddarpariaeth. Mae'r cynigiwr wedi nodi effaith gyfyngedig ar deithio, gan fod y ddau safle o fewn 0.5 milltir i'w gilydd, a gostyngiad tebygol mewn traffig yn yr ardal rhwng y ddau safle, gan y bydd brodyr a chwiorydd ar yr un safle. Cynigir y bydd yr adeilad newydd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, a fydd yn gwella mynediad ar gyfer plant ac oedolion ag anabledd. Yn ychwanegol, mae'r cynigiwr wedi cynnal trafodaethau cychwynnol i bennu hyfywedd defnyddio tir cymunedol cyfagos diangen i gynnig darpariaeth gynyddol ar gyfer mannau gollwng a pharcio. Nid oes darpariaeth fel hyn ar gael ar safle'r ysgol iau ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos bod hon yn ystyriaeth bragmataidd.

Mae'n ymddangos bod y cynnig yn mynd i'r afael yn briodol â'r angen i leihau nifer y lleoedd dros ben ar hyn o bryd, yn enwedig yn yr ysgol iau, tra'n cynnig digon o hyblygrwydd i

ddarparu ar gyfer y datblygiad tai arfaethedig a'r cynnydd tebygol yn niferoedd y disgyblion yn yr ardal hyd y gellir rhagweld.

Mae'n ymddangos bod y cynnig yn rhoi digon o ystyriaeth i'r effaith debygol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol. Mae'n debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith fach iawn ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod.

Nodwyd bod Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn un o'r prosiectau blaenoriaeth yn rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi nodi costau ariannol penodol a thebygol y cynnig nac unrhyw arbedion posibl.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg, yn cynnwys effaith gadarnhaol debygol adeilad newydd ac ysgol wedi'i huno ar les disgyblion a'r systemau ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Mae'r cynnig yn ystyried manteision cadarnhaol tebygol capasiti cynyddol ar gyfer cymorth a gwella o ganlyniad i garfan ehangach o staff mewn ysgol fwy. Mae'r cynnig yn nodi cyfleoedd cynyddol tebygol i staff ddatblygu eu gyrfaoedd oherwydd y  cyfleoedd i wneud hynny mewn ysgol fwy. Hefyd, mae'r cynnig yn ystyried manteision tebygol gofal plant cofleidiol ar y safle, a phontio o leoliad meithrin a gofal plant ar y safle i'r ysgol. Mae'n ymddangos bod y cynigion hyn yn realistig a gwerth chweil.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth addas i adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer y ddwy ysgol, yn cynnwys gwelliannau diweddar ers yr arolygiad craidd yn Ysgol Fabanod Llanfabon. Mae'n nodi effaith gadarnhaol debygol i sicrhau bod darpariaeth cwricwlwm llawn yn cael ei chyflwyno yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y cynnig yn ystyried barn yr ALl / consortiwm ar ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgolion.

Nid yw'n glir o'r cynnig p'un ai'r bwriad yw i'r corff llywodraethol ddod yn un endid, neu p'un a fyddai trefniant ffederasiwn yn parhau. Gallai fod yn bragmataidd amlinellu bwriadau i gefnogi pontio esmwyth a sicrhau bod pawb yn deall sut bydd y trefniant llywodraethu yn digwydd yn ymarferol, er enghraifft gyda chyfeiriad at benderfyniadau am staffio a chyfathrebu posibl â rhieni.

Nid yw'r cynnig yn ystyried effaith y cynigion ar blant ag anghenion addysgol arbennig, er ei fod yn rhoi ystyriaeth fras i effaith gadarnhaol debygol y ddarpariaeth newydd a gwell ar les disgyblion, yn cynnwys ar gyfer disgyblion bregus.